OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1268

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009

**Taliadau rhagnodedig**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (12) a (13), rhaid i ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi dalu i'r awdurdod priffyrdd swm sydd i'w bennu yn unol â pharagraffau (3) i (11).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) gwaith—

(i) mewn stryd nad yw'n sensitif i draffig,

(ii) ar droedffordd stryd sydd yn sensitif i draffig ar adeg sydd yn sensitif i draffig, neu

(iii) mewn stryd sydd yn sensitif i draffig, ac eithrio ar adeg sydd yn sensitif i draffig,

os nad yw'r gwaith yn golygu dryllio'r stryd neu dwnelu neu dyllu oddi tani;

(b) gwaith sy'n cynnwys dim ond creu tyllau sy'n llai na 3 centimetr ar eu traws, at ddibenion ymchwiliol;

(c) ailosod polion, colofnau lamp neu arwyddion yn yr un lleoliad; neu

(ch) rhoi prawf ar bolion.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (9), bydd y taliad yn swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (4), a bydd yn daladwy am bob diwrnod, neu ran o ddiwrnod, y mae hyd y gwaith yn mynd yn fwy na'r hwyaf o—

(a) y cyfnod rhagnodedig, neu

(b) cyfnod rhesymol([1]).

(4) O ran gwaith stryd sydd mewn categori a restrir yng ngholofn 3 o Dabl 1, ac sy'n cael ei gyflawni mewn stryd o fath a ddisgrifir yng ngholofn 2 o ran y categori hwnnw, swm y taliad fydd y swm sydd wedi ei nodi yng ngholofn 4.

**Tabl 1**

| *1.* *Rhif yr Eitem* | *2.* *Disgrifiad o stryd.* | *3.* *Categori o waith stryd.* | *4.* *Swm y taliad (£).* |
|---|---|---|---|
| 1. | Stryd nad yw'n stryd yng nghategori ffordd 2, 3 neu 4. | Gwaith mawr | 2,500 |
| | | Gwaith safonol | 2,500 |
| | | Mân waith | 500 |

([1]) Dylid dehongli "cyfnod rhesymol" yn unol ag adran 74(2) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22).

| *1.* *Rhif yr Eitem* | *2.* *Disgrifiad o stryd.* | *3.* *Categori o waith stryd.* | *4.* *Swm y taliad (£).* |
|---|---|---|---|
| | | Gwaith di-oed | 500 |
| 2. | Stryd yng nghategori ffordd 2. | Gwaith mawr | 2,000 |
| | | Gwaith safonol | 2,000 |
| | | Mân waith | 500 |
| | | Gwaith di-oed | 500 |
| 3. | Stryd yng nghategori ffordd 3 neu 4 sydd yn stryd sy'n sensitif i draffig. | Gwaith mawr | 750 |
| | | Gwaith safonol | 750 |
| | | Mân waith | 250 |
| | | Gwaith di-oed | 250 |
| 4. | Stryd yng nghategori ffordd 3 neu 4 sydd ddim yn stryd sy'n sensitif i draffig. | Gwaith mawr | 250 |
| | | Gwaith safonol | 250 |
| | | Mân waith | 100 |
| | | Gwaith di-oed | 100 |

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), bydd y taliad o ran gwaith adfer yn daladwy yn unol â pharagraff (3), ond bydd yn cael ei gyfrifo yn unol â pharagraff (4) fel pe bai'r gwaith hwnnw, yn ddarostyngedig i baragraff (7), yn waith stryd o'r un categori â'r gwaith sydd wedi ei nodi ym mharagraff (6).

(6) Y gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5) yw'r gwaith hwnnw mewn perthynas â'r hwn—

(a) y methwyd â chydymffurfio â dyletswyddau'r ymgymerydd mewn perthynas ag adferiad; a

(b) y mae'r awdurdod strydoedd wedi ei gwneud yn ofynnol ar yr ymgymerydd i gyflawni'r gwaith adfer.

(7) Pan fo'r gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (6) yn waith a oedd, adeg cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 54(1), 55(1) neu 57 o Ddeddf 1991, yn waith a oedd yn syrthio i un o'r categorïau sydd wedi eu rhestru yng ngholofn 2 o Dabl 2 at ddibenion Rheoliadau 1992, bydd y gwaith hwn yn cael ei drin, at ddibenion paragraff (5), fel pe bai yn y categori cyfwerth sydd wedi ei restru yng ngholofn 3 o ran y categori hwnnw.

**Tabl 2**

| 1. *Rhif yr Eitem* | 2. *Categori o waith stryd at ddibenion Rheoliadau 1992.* | 3. *Categori cyfwerth o waith stryd.* |
|---|---|---|
| 1. | Prosiectau mawr | Gwaith mawr |

| 1. *Rhif yr Eitem* | 2. *Categori o waith stryd at ddibenion Rheoliadau 1992.* | 3. *Categori cyfwerth o waith stryd.* |
|---|---|---|
| 2. | Gwaith safonol | Gwaith safonol |
| 3. | Mân waith | Mân waith |
| 4. | Gwaith brys | Gwaith di-oed |
| 5. | Gwaith argyfwng | Gwaith di-oed |

(8) Ym mharagraff (7), mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn eitemau 1 i 4 yng ngholofn 2 o Dabl 2 yr ystyr a roddir iddynt yn rheoliad 2 o Reoliadau 1992.

(9) Bydd y taliad yn daliad sengl o £100 mewn perthynas ag unrhyw waith dan yr amgylchiadau a restrir ym mharagraff (10), os bodlonir gofynion paragraff (11).

(10) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (9) yw—

(a) bod yr ymgymerydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (c)—

(i) wedi cwblhau adferiad dros dro, neu adferiad parhaol yn ôl y digwydd, o briffordd,

(ii) wedi gwneud ymdrech i symud pob arwydd, golau ac eitem warchod ymaith, a

(iii) wedi symud ymaith pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl;

(b) na fuasai hyd y gwaith wedi mynd yn fwy na'r hwyaf o'r cyfnod rhagnodedig neu gyfnod rhesymol, oni bai am baragraff (c); ac

(c) bod eitem sengl o arwyddo, goleuo neu warchod yn aros ar y briffordd.

(11) Y gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraff (9) yw—

(a) bod yr awdurdod priffyrdd—

(i) wedi hysbysu'r ymgymerydd o natur a lleoliad yr eitem sengl y cyfeirir ati ym mharagraff (10)(c); a

(ii) wedi gofyn i'r ymgymerydd ei symud ymaith; a

(b) bod yr ymgymerydd wedi cydymffurfio â'r cais erbyn diwedd y diwrnod a oedd yn dilyn y dyddiad y derbyniwyd y cais.

(12) Caiff awdurdod priffyrdd ostwng swm taliad, neu hepgor y taliad—

(a) mewn unrhyw achos neilltuol,

(b) ym mha bynnag ddosbarthau o achos y byddant yn penderfynu arnynt,

(c) ym mhob achos,

(ch) ym mhob achos ar wahân i achos penodol, neu

(d) ym mhob achos ar wahân i ba bynnag ddosbarth o achos y byddant yn penderfynu arni.

(13) Nid yw taliadau ond yn daladwy mewn perthynas â gwaith stryd pan fo'r awdurdod priffyrdd wedi cyflwyno i'r ymgymerydd, ddim mwy na thri mis ar ôl derbyn hysbysiad o fod yn glir o waith neu hysbysiad o gwblhau gwaith, gyfrif ysgrifenedig sy'n nodi'r taliadau sy'n daladwy.